
Prosiect X

# I'r Gad!



DRAKE

Haydn Middleton

# I'r Gad!

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 2 |
| Y llyfr rheolau | 4 |
| Curo'r cewri | 6 |
| Gwrthdaro a ddaeth yn ôl | 10 |
| Marchogion mewn rhyfel | 14 |
| Milwyr troed yn taro'n ôl | 16 |
| Ar ochr pwy wyt ti? | 18 |
| Gwaith i'r goreuon | 20 |
| Ymladd ar eich eistedd | 22 |
| Yr Hen Fyd yn erbyn y Newydd | 24 |
| Y Byd Newydd yn gwrthryfela | 26 |
| Gwrthdaro mewn heddwch | 28 |
| Heddwch mewn gwrthdaro | 30 |
| Geirfa | 31 |
| Mynegai | 32 |



**Haydn Middleton**

**Lluniau'r cymeriadau gan Jon Stuart**



DRAKE

# Cyflwyniad


Hoffai pawb i'r byd fod yn lle heddychlon. Ond bydd pobl wastad yn anghytuno. Gall ffrae godi ac yn yr achosion gwaethaf, gall **gwrthdaro** arfog ddigwydd.




Byddin o dde Ewrop yn cael ei harwain gan Alecsander Fawr yn erbyn y Persiaid i gipio Asia yn 333CC.




Llyfr ydy hwn am wrthdaro'r gorffennol: rhyfela rhwng pobl o wahanol lefydd yn y byd. Yn y rhan fwyaf o'r rhyfeloedd yma, roedd y ddwy ochr yn ymladd i reoli tir neu wledydd arbennig. Yna gallai'r enillwyr reoli'r collwyr a chymryd cyfoeth y collwyr iddyn nhw eu hunain.



Brenin Groegaidd oedd Alecsander Fawr (356-323CC) ac roedd ganddo un o'r **ymerodraethau** mwyaf erioed.


## Ceisio cyfyngu'r niwed

Unwaith mae rhyfeloedd yn dechrau, mae'n anodd eu stopio rhag mynd allan o reolaeth. Yn y gorffennol, mae pobl wedi ceisio cyfyngu'r niwed gaiff ei achosi gan ryfel drwy wneud rheolau. Darllenwch ymlaen i weld sut roedd marchogion i fod i ymddwyn...



# Y llyfr rheolau

Mil o flynyddoedd yn ôl yn Ewrop, gwaith marchog oedd ymladd dros ei frenin mewn rhyfel. Roedd marchogion hefyd yn gweithio fel heddlu yn amser heddwch. Roedd rhaid iddyn nhw ddilyn rheolau pendant. Enwau'r rheolau hyn oedd Côd Marchogwriaeth. Yn ôl y rheolau, roedd rhaid i farchog:



- fod yn ddewr, cryf a dawnus mewn brwydr
- fod yn driw i'r brenin neu'r arglwydd
- fod yn garedig a chwrtais
- amddiffyn pobl wan neu heb arfau.

## All unrhyw frwydr fod yn deg?

Mewn chwaraeon, mae cystadlaethau ymladd rhwng athletwyr. Cawson nhw eu hyfforddi'n dda ac maen nhw'n gorfod cadw at reolau pendant y mae pawb yn cytuno gyda nhw.




Mae bocswyr yn ymarfer bocsio â bagiau taro. Felly does neb yn brifo.




Mae hi'n anodd gwneud yn siŵr fod byddinoedd yn cwffio'n deg mewn rhyfeloedd ond, ym 1864, cytunodd llawer o wledydd i gadw at reolau rhyfel o'r enw Cytundeb Genefa. Mae'n dal mewn grym hyd heddiw ac yn cynnwys cytundebau ar sut i drin pobl heb arfau sydd wedi eu dal neu wedi brifo ynghanol gwrthdaro. Yr un pryd, dechreuodd mudiad y Groes Goch, er mwyn helpu pobl sy'n dioddef yn ystod gwrthdaro.




Mae Ffederasiwn Rhyngwladol y Groes Goch a Chymdeithasau Cresawnt Coch yn gwneud gwaith ardderchog ar draws y byd.


# Curo'r cewri

Mewn rhyfeloedd ers talwm, weithiau byddai un fyddin yn fwy o lawer na'r llall. Roedd rhyfelwyr y fyddin leiaf yn gorfod meddwl am ffyrdd o ennill er gwaethaf popeth.




Map yn dangos Groeg gynt ac Ymerodraeth Persia ym 490CC.

Ym 490CC, glaniodd byddin enfawr Ymerodraeth Persia yng Ngroeg. Yn Asia, Affrica ac Ewrop, roedd y Persiaid wedi ennill sawl buddugoliaeth ar ôl buddugoliaeth. Ymgasglodd y fyddin Roegaidd i'w hwynebu mewn lle o'r enw Marathon. Roedd o leiaf bum gwaith mwy o Bersiaid nag o Roegwyr.




Edrychai'n debyg y byddai'r Persiaid yn gorchfygu'r byd i gyd o dan Brenin Darius I!



## Saethwyr yn erbyn picellwyr


Doedd y Persiaid ddim am i'w gelynion ddod yn rhy agos yn ystod brwydr. Wrth i fyddin orymdeithio tuag atyn nhw, bydden nhw'n eu stopio drwy saethu miloedd o saethau atyn nhw. Ond *byddai'r* Groegwyr yn dod yn agos tra'n cwffio. Bydden nhw'n gorymdeithio at eu gelyn â'u picellau yn anelu at yr awyr, gan edrych fel draenog! Yna, bydden nhw'n trywanu hyd at fuddugoliaeth.



Picellwyr Groegaidd yn wynebu saethwyr Persiaidd.



# Tactegau buddugoliaeth




Cynllun brwydr ym Marathon yn dangos safle'r ddwy fyddin.

Gwyddai'r Groegwyr fod y Persiaid wastad yn rhoi eu hymladdwyr gorau yng nghanol **llinell y frwydr**. Felly rhoddodd y Groegwyr eu dynion gorau *nhw* ar yr ochrau neu'r 'adenydd'. Yn sydyn, saethodd canol y Persiaid eu ffordd trwy ganol y Groegwyr, ond gwthiodd adenydd y Groegwyr adenydd y Persiaid yn ôl. Yna caeon nhw am ganol y Persiaid fel **pinsiyrnau**.

Yn syth wedyn dechreuodd brwydr wyneb-yn-wyneb - y math o frwydr nad oedd y Persiaid yn ei hoffi.

Collodd y Groegwyr 192 rhyfelwr yn y frwydr, ond collodd y Persiaid 6400. Roedd rhaid i'r rheini oedd wedi goroesi fynd yn ôl ar eu llongau, wedi'u trechu.

Roedd y Groegwyr, y **gwannaf**, wedi ennill. Roedden nhw wedi curo gelyn enfawr.





# Ras i ddweud y newyddion

Efallai i chi glywed y gair 'marathon' o'r blaen. Enw ar ras dros bellter o ychydig dros 40 cilometr ydy o. Cafodd y marathon gyntaf ei rhedeg ym 1896, pan ddechreuodd y Gêmau Olympaidd modern yn Athen, Gwlad Groeg.


Pam yr enw hwnnw? Yn ôl y sôn, ar ôl Brwydr Marathon rhedodd negeseuwr tua 40 cilometr i Athen i adrodd am y fuddugoliaeth arwrol. Ond yna, yn anffodus, llewygodd a bu farw.



Mae'r athletwraig Tseiniaidd, Bai Xue yn bencampwraig marathon heddiw.

# Gwrthdaro a ddaeth yn ôl

Mae rhai brwydrau drosodd yn gyflym, eraill yn cymryd llawer hirach. Gall goresgynwyr gwlad *feddwl* fod rhyfel drosodd cyn ei bod hi wedi gorffen. Digwyddodd hyn bron i 2000 mlynedd yn ôl, pan ddechreuodd byddin bwerus Rhufain oresgyn Prydain ym 43oc. Roedd Prydain yn gyfoethog mewn ŷd, gwartheg, arian a haearn, felly roedd y Rhufeiniaid eisiau'r wlad fel rhan o'u hymerodraeth anferth.




Erbyn 54oc roedd yr Ymerodraeth Rufeinig yn cynnwys y rhan fwyaf o Ewrop ac yn ymestyn i Affrica a Asia.




Roedd milwyr Rhufeinig mewn grwpiau o hyd at 100 dyn, o'r enw canwyr. Roedden nhw'n cael eu harwain gan ganwriaid.


## Datblygiad araf

Roedd y Brythoniaid yn byw mewn sawl llwyth gwahanol. Daeth rhai llwythau yn y de a'r dwyrain yn ffrindiau gyda'r goresgynwyr. Adeiladodd y Rhufeiniaid drefi newydd fel Caer Colun (Colchester), Llundain a St Albans. Aeth prif fyddin y Rhufeiniaid i'r gorllewin i ymladd yn erbyn llwythau eraill.



## Gwrthryfel mawr

Yn y flwyddyn 60oc, newidiodd popeth. Ar ôl 17 mlynedd o dan reolaeth Rufeinig, roedd llawer o Frythoniaid y dwyrain yn teimlo bod y Rhufeiniaid yn feistri newydd llym. Dechreuon nhw wrthryfela. Mae pob **gwrthryfel** angen arweinydd da i ddod â phobl ynghyd a rhoi gorchmynion ynghanol brwydr. Roedd gan Brydain arweinydd perffaith. Brenhines llwyth yr Iceni oedd hi, a'i henw hi oedd Buddug.




## Buddug yn erbyn y Rhufeiniaid

Gyda'r brif fyddin Rufeinig yn bell i ffwrdd, dinistriodd gwrthryfelwyr Buddug y trefi Rhufeinig Caer Colun, Llundain a St Albans. Yna, gorymdeithion nhw i ganolbarth Prydain gan ladd tua 70,000 o bobl.



Llosgodd Buddug a'i gwrthryfelwyr dref Llundain.



Brysiodd y fyddin Rufeinig o dan reolaeth y Cadfridog Paulinus yn ôl o'r gorllewin. Daeth y ddau lu mawreddog wyneb yn wyneb. Byddai eu rhyfel yn penderfynu pwy oedd am reoli Prydain.

Arferai'r pen hwn fod ar gerflun yr Ymerawdwr Claudius yng Nghaer Colun Rufeinig. Ond torrodd gwrthryfelwyr Buddug o i ffwrdd a'i daflu i afon. Daethpwyd o hyd iddo ganrifoedd yn ddiweddarach ym 1907.



## Buddugoliaeth y Rhufeiniaid

Does neb yn gwybod yn union ble roedd y frwydr. Ond mae'n sicr mai'r Rhufeiniaid enillodd. Dywedodd awdur Rhufeinig fod bron i 80,000 o Frythoniaid wedi eu lladd, ond dim ond 400 ar ochr y Rhufeiniaid. Gwelodd Buddug fod y gwrthryfel wedi dod i ben, felly gwenwynodd hi ei hun i osgoi cael ei dal yn fyw.

Wedi hynny, daeth y rheolaeth Rufeinig yn fwy llym. Gorchfygon nhw'r rhan fwyaf o Gymru a Lloegr. Ond ymhen amser, dysgodd y Rhufeiniaid a'r Brythoniaid i fyw mewn heddwch.







Codwyd y cerflun Rhufeinig yma yng Nghaer Colun cyn y gwrthryfel. Mae'n dangos ceffyl **marchfilwr Rhufeinig** yn sathru Brython.

# Marchogion mewn rhyfel


Mae dyfeisiadau yn newid sut rydyn ni'n byw heddiw. Newidiodd **technoleg** newydd fywyd yn y gorffennol hefyd. Tan 1500 mlynedd yn ôl, roedd rhyfelwyr wastad yn mynd *i* frwydr ar gefn ceffylau. Ond roedd hi'n anodd *brwydro* ar gefn ceffyl, er mor ddawnus fyddai'r milwr. Cyn gynted ag yr oedd yn chwifio ei arf, roedd peryg iddo syrthio. Hefyd roedd hi'n anodd amddiffyn y corff pan yn ymladd ar gefn ceffyl.

Newidiodd hyn erbyn amser goresgyniad y Normaniaid ym 1066. Roedd y marchogion Normanaidd wedi eu hamddiffyn yn well na rhyfelwyr cynt, diolch i dechnoleg newydd.




Cafodd Tapestri Bayeux ei wneud tua 1080 yn Bayeux, Normandi, Ffrainc. Mae'n dweud stori buddugoliaeth y Normaniaid dros Loegr ym Mrwydr Hastings.






Chafodd y dyfeisiadau yma mo'u gwneud ar unwaith. Datblygon nhw dros flynyddoedd.

Gyda'r warthol a'r cyfrwy uchel, eisteddai marchog yn gadarn ar ei geffyl, pa arf bynnag roedd yn ei ddefnyddio. Fel arfer byddai'n carlamu ar y cyflymder uchaf posib, gan anelu ei wayw ag un llaw. Yn ei law arall, daliai'r ffrwyni a'i darian hir. Roedd ei gôt o ddolennau cadwyn metel yn ei amddiffyn hyd yn oed yn well. Byddai wedyn yn taro i mewn i'w elyn gyda holl bwysau ei hun a'i geffyl.



# Milwyr troed yn cwffio'n ôl

Roedd milwyr troed canoloesol Ewrop yn gorfod stopio rhuthriadau marchogion, ond nid technoleg newydd wnaeth ddatrys eu problemau. Yn lle hynny, dechreuon nhw ddefnyddio *hen* arf - y waywffon. Adeiladon nhw'r rhain yn hirach a'u defnyddio mewn dull newydd. Rhoddon nhw hefyd enw newydd arnynt: picell.







Roedd y bicell wedi ei gwneud o bren gyda metel ar y pen. Gallai fod hyd at 6 metr o hyd.




# Ffordd newydd o amddiffyn

Taflai rhyfelwyr ers talwm eu gwaywffyn, ond roedd picellwyr canoloesol yn dal gafael ar eu picellau. Weithiau roedden nhw hefyd yn cario cleddyfau byr ar gyfer ymladd. Eu prif swydd oedd i amddiffyn, nid ymosod. Safent yn agos at ei gilydd mewn uned a phwyntio eu picellau at farchogion carlamus eu gelynion.

Petai pob picellwr yn dal yn dynn, byddai'r gelynion yn rhuthro i mewn i wal enfawr o bigau. Safai picellwyr yn aml mewn cylchoedd neu sgwariau mawr i amddiffyn eu hunain rhag ymosodiad o unrhyw gyfeiriad. Fel hyn, chwaraeon nhw ran bwysig mewn llawer o frwydrau Ewropeaidd tan tua 1700.



Cafodd picellau eu defnyddio i stopio rhuthriadau marchogion yn Siapan hefyd. 'Nagae yari' oedd enw'r bicell Siapaneaidd.

# Ar ochr pwy wyt ti?

Gallai gwrthdaro canoloesol fod yn ddryslyd. Doedd milwyr ddim â gwisgoedd arbennig. Ynghanol brwydr roedd hi'n anodd dweud pwy oedd ar eich ochr chi a phwy oedd ar ochr y gelyn.

Yn ystod y 12fed ganrif, dechreuodd marchogion Ewropeaidd wisgo 'arfbeisi'. Patrymau personol oedd y rhain wedi eu gwnïo ar eu dillad a'u hargraffu ar eu tariannau a'u helmedau. Roedd hyd yn oed rai ar arfwisg eu ceffylau. Teulu cyfan oedd biau'r arfbeisi, gan eu pasio i lawr o dad i fab. Felly, ar ôl ychydig, daeth hi'n hawdd i **adnabod** pwy oedd yn eu gwisgo.

Byddai marchog o'r 15fed ganrif yn hawdd i'w adnabod - os oeddech chi'n gwybod am beth i chwilio!









## Llygad-dystion ardderchog

Gwaith rhai pobl oedd adnabod marchogion ac ysgrifennu am eu sgiliau ymladd ardderchog. 'Herodron' oedd y rhain. Yn ystod brwydrau, safent ar yr ochr mewn lle diogel rhag y ddwy ochr. Yno, bydden nhw'n gwneud **cofnod** o beth fyddai pob marchog yn ei wneud. Roedd ysgrifenwyr canoloesol yn defnyddio'r cofnodion yma wrth ysgrifennu eu llyfrau.


herodr




Rhoddai teuluoedd arfbeisi ar eu ffenestri gwydr, waliau a cherrig beddi.

Roedd teuluoedd yn falch iawn o'u harfbeisi. Gallai marchogion canoloesol arwyddo llythyr swyddogol drwy roi stamp o'u harfbais arno. Roedd hyn yn ddefnyddiol, gan nad oedd llawer ohonyn nhw'n gallu ysgrifennu eu henwau!

# Gwaith i'r goreuon

Yn y gorffennol, roedd rhai rhyfelwyr yn cael eu galw'n 'hurfilwyr'. Ymladd oedd eu gyrfa nhw. Cawsant eu hurio i gwffio am arian. Symudai hurfilwyr o waith i waith, o fyddin i fyddin. Felly weithiau cawson nhw eu talu i ymladd yn erbyn pobl o'u gwlad eu hunain!

Gallai hurfilwyr newid ochr petai'r ochr arall yn cynnig mwy o arian.




Tynnwyd llun yr hurfilwr Eidalaidd yma gan yr arlunydd enwog Leonardo da Vinci.








# Carcharor!




Ymerodraeth Dwrcaidd yn ei hanterth (16eg - 17eg ganrif)

O'r 13eg ganrif, goresgynnodd y Twrciaid Otomanaidd ddwyrain Ewrop. Fel y daethon nhw, carcharon nhw lawer o fechgyn Ewropeaidd. Hyfforddon nhw'r bechgyn yn drwyadl i ddod yn 'janisariaid'. Roedd y rhain yn rhyfelwyr arbennig a gafodd eu gwobrwyo'n hael - ond roedd yn waith peryglus!

grŵp o janisariaid




# Ymladd ar eich eistedd

Gwarchae ydy pan fo byddin y gelyn yn amgylchynu tref neu adeilad i orfodi'r bobl tu mewn i ildio. Dyma beth sy'n digwydd:

**1.** Mae byddin sy'n ymosod eisiau cipio tref neu gastell.

**2.** Dydy'r bobl o fewn y waliau ddim am ildio.




**3.** Mae'r ymosodwyr yn gwersylla o amgylch y dref neu gastell, yn rhwystro bwyd, dŵr ffres a chyflenwadau eraill rhag dod i mewn.

**4.** Mae'r bobl tu mewn yn dal ati tan mae newyn neu afiechydon yn eu gorfodi i ildio NEU tan ddaw byddin gyfeillgar i hel yr ymosodwyr ymaith.



Cyn dyfeisio canonau - i ffrwydro waliau'n gyflym - gallai gwarchae barhau'n hir. Roedd rhai'n parhau am flynyddoedd.



Defnyddiai'r ymosodwyr gatapwlt mawr i daflu cerrig neu ddeunyddiau'n llosgi dros y waliau.




Parhaodd gwarchae yng Nghastell Harlech, gogledd Cymru o 1461 tan 1468. Gallai'r amddiffynwyr wneud hyn am fod castell Harlech wrth y môr ar y pryd a gallai llongau ddod â chyflenwadau yno.

# Yr Hen Fyd yn erbyn y Newydd

Hyd at ddiwedd y 15fed ganrif, doedd pobl Ewrop ac America erioed wedi cyfarfod. Wydden nhw ddim am ei gilydd hyd yn oed! Dechreuodd yr Ewropeaid hwylio i'r gorllewin dros Gefnfor Iwerydd i America. Rhyfeddent wrth weld ymerodraethau anferth a chyfoethog yno. Roedd y rhain yn cynnwys yr ymerodraeth Astec ym Mecsico ac ymerodraeth pobl Inca ym Mheriw.




Map o'r Byd Newydd (yr Americas) a'r Hen Fyd (Ewrop).

Galwodd yr Ewropeaid America yn 'Fyd Newydd' oherwydd doedden nhw ddim yn gwybod amdano o'r blaen. Daeth Ewrop yn 'Hen Fyd'. Roedd yr Ewropeaid eisiau rheoli'r byd, felly dechreuodd gwrthdaro ffyrnig rhwng yr hen a'r newydd, y dwyrain a'r gorllewin.




Adfeilion y ddinas Inca fawr, Machu Picchu



## Dau fyd yn gwrthdaro

Roedd llawer mwy o Frodorion Americanaidd na rhyfelwyr o Ewrop. Ond yr Ewropeaid enillodd y gwrthdaro, oherwydd roedd ganddyn nhw dechnoleg well. Roedd ganddyn nhw geffylau, gynnau, arfau dur ac arfwisg gref, tra oedd gan yr Americanwyr arfau gwannach a llai o arfwisgoedd. Doedd gan yr Americanwyr ddim amddiffynfa rhag germau ac afiechydon roedd yr Ewropeaid yn eu cario, fel y **frech wen**.

Symudodd llawer o Ewropeaid i Fyd Newydd America. Ymsefydlon nhw mewn **trefedigaethau**. Ond doedd y gwrthdaro rhwng y Byd Newydd a'r Hen Fyd ddim drosodd eto...



'Conquistadores' oedd enw'r rhyfelwyr Ewropeaidd a deithiodd o Sbaen i America yn y 1500au. Dyna'r gair Sbaenaidd am 'goncwerwyr'.

# Y Byd Newydd yn taro'n ôl


Aeth y rhan fwyaf o'r Prydeinwyr a symudodd i'r Byd Newydd i Ogledd America. Sefydlon nhw drefedigaethau ar arfordir y dwyrain. Tan 1775, rheolwyd y gwladychwyr gan y brenin Prydeinig yn Llundain. Roedd rhaid iddyn nhw anfon arian yn ôl fel **trethi**, hefyd.



Llong y *Mayflower*. Aeth hi â gwladychwyr Prydeinig cynnar i Ogledd America.

Credai'r gwladychwyr fod hyn yn annheg. Felly penderfynon nhw fod yn **annibynnol**, gadael yr hen reolwyr a dechrau rheoli eu hunain. Ond, doedd y brenin Prydeinig a'i weinidogion ddim eisiau hyn.

Gwrthdaro oedd y canlyniad.




Y lleoedd ar arfordir y dwyrain ble roedd y gwladychwyr Prydeinig yn byw.



# Geni gwlad newydd sbon

Roedd 'Rhyfel Annibyniaeth America' rhwng y gwladychwyr a byddin o Brydain yn un ffyrnig a hir. O 1775 tan 1783, brwydron nhw ar dir a môr. Ond gyda help Ffrainc a Sbaen, enillodd y gwladychwyr yn y diwedd. Sefydlon nhw eu gwlad newydd sbon eu hunain: Unol Daleithau America (UDA).

George Washington oedd cadlywydd byddin y gwladychwyr (yn sefyll yn y cwch). Ym 1789, cafodd ei ethol fel arlywydd cyntaf UDA. Enwyd Washington DC, prifddinas UDA, ar ei ôl.



# Gwrthdaro mewn heddwch

Doedd rhyfelwyr ers talwm ddim yn ymladd trwy'r amser. Yn ystod amser heddwch roedd rhaid hyfforddi. Felly, yn y canoloesoedd, trefnwyd brwydrau ffug. Cawson nhw eu cynnal mewn digwyddiadau o'r enw 'twrnamaint'. Deuai gwylwyr o bob man i wylio. Weithiau, âi pethau o chwith. Yng Nghwlen (Cologne), yr Almaen, ym 1240, lladdwyd chwe deg marchog.






Timau o farchogion yn brwydro mewn twrnamaint yn y 15fed ganrif. Os daliwyd marchog gan y tîm arall, roedd rhaid iddo dalu i gael ei ryddhau. Efallai hefyd y byddai'n rhaid iddo ildio ei geffyl a'i arfwisg.




## Brwydr sengl

Yn ddiweddarach, daeth twrnamaint rhwng dim ond dau farchog yn fwy poblogaidd. 'Paledu' oedd ei enw. Sgoriai'r marchogion bwyntiau drwy gwffio gyda gwaywffyn ar gefn ceffyl, yna ar droed gyda chleddyfau neu fwyell. Byddai'r paledu'n dod i ben pan oedd marchog wedi sgorio digon o bwyntiau i ennill neu pe byddai ei gystadleuydd yn ildio.



Yn aml, am resymau diogelwch, doedd gan yr arfau ddim min wrth baledu.


Mae lluoedd arfog modern yn dal i hyfforddi yn amser heddwch. Mae'r rhain yn cael eu galw'n 'gad-drefnu'. Weithiau, mae gwledydd sydd yn gyfeillgar yn 'cad-drefnu' gyda'i gilydd.



Dyma'r USS *Texas*, wedi'i angori yn Texas, UDA. Cafodd y llong ryfel yma ei defnyddio yn y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd ac yn ystod ymarferion. Amgueddfa ydy hi rŵan.

# Heddwch mewn gwrthdaro

Yng Ngroeg gynt, trefnwyd 'seibiau' gan elynion oedd yn brwydro mewn rhyfel. Roedd fel gwyliau byr! Byddai gwyliau chwaraeon fel y Gêmau Olympaidd yn gallu digwydd heb i neb gael eu brifo.




Roedd llefydd arbennig ble na châi rhyfelwyr ymladd. Doedd llwythau rhyfelgar Arabia ddim yn cael mynd i ddinas heddychlon Mecca. Er hynny, yn y chweched ganrif, ceisiodd arweinydd rhyfel oresgyn y ddinas gyda byddin a oedd yn cynnwys eliffant. Pan gyrhaeddodd yr eliffant gyrion y dref, plygodd ei liniau a gwrthod mynd yn ei flaen. Wedi hynny, trodd y fyddin yn ôl!






# Geirfa

| | |
|---|---|
| **adnabod** | gwybod pwy ydy person neu beth ydy rhywbeth |
| **annibynnol** | rhywun all wneud pethau drosto'i hun heb help gan bobl eraill |
| **brech wen** | afiechyd difrifol sy'n achosi gwres a smotiau ar y croen |
| **canoloesol** | yn ystod neu'n ymwneud â'r Oesoedd Canol (tua 1000 i 1400 oc) |
| **cofnod** | rhoi rhywbeth i lawr ar bapur neu ryw ffordd arall o gadw rhywbeth am byth |
| **dolennau** | cadwyn arfwisg wedi ei gwneud o gylchoedd bach metel yn sownd yn ei gilydd |
| **gwannaf** | cystadleuydd y mae pawb yn meddwl fydd yn colli wrth ymladd |
| **gwrthdaro** | brwydr neu anghytundeb |
| **gwrthryfel** | mudiad arfog wedi ei drefnu i godi yn erbyn y llywodraeth |
| **marchogfilwr** | milwr sy'n ymladd ar gefn ceffyl |
| **pinsiyrnau** | crafangau sy'n dal ac yn dal gafael ar bethau |
| **technoleg** | defnyddio gwyddoniaeth a pheiriannau i helpu pobl gyda'u bywydau |
| **trefedigaeth** | ardal o dir ble y mae pobl o wlad arall yn setlo ac yn ei rheoli |
| **trefn y gad** | y ffordd y mae byddin yn sefyll yn barod i frwydro |
| **treth** | arian y mae pobl yn gorfod ei dalu i'r llywodraeth |
| **ymerodraeth** | grŵp o wledydd sy'n cael eu rheoli gan un person neu lywodraeth |

Prosiect X

Llyfr Band 12 Brown

Coeden Ddarllen Rhydychen — Cam 10, Cam 11

# I'r Gad!

**Ymunwch gyda Sbwt a Hops wrth iddyn nhw ddysgu am wrthdaro a rhyfela ar hyd yr oesoedd.**



**Teitlau eraill ar y thema Gwrthdaro:**

- Storm Forgrug
- Bot-forgrug Ymosodol!
- Casglu'r Cywion
- Cwffas Creaduriaid

Ffeithiol

Ⓣ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2014
www.gwasgaddysgoldrake.com

ISBN 978-1-84891-513-8

DRAKE

ISBN 978-1-84891-513-8

9 781848 915138